**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/4013/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adrannau 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod ac felly nid yw'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod arferol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Cafodd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ("ETS") ei sefydlu gan Orchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (y "prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r DU gyfan er mwyn annog y sectorau pŵer a hedfan, a diwydiant, i leihau allyriadau mewn modd costeffeithiol. Mae wedi'i ddylunio ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a bydd yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau'r DU a'r nod o ran sero-net, yn ogystal â'r targedau lleihau allyriadau yma yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaethau pellach ar gyfer ETS y DU, yn benodol o ran dyrannu lwfansau am ddim a chofrestrfa ar gyfer ETS y DU.

Gosodir y Gorchymyn hwn, a ddaw i rym ar 31 Rhagfyr 2020, gan dorri'r rheol 21 diwrnod, sef y confensiwn na ddylid gosod offeryn gerbron y Senedd lai na 21 diwrnod cyn y daw i rym. Gwnaed y Gorchymyn ar 16 Rhagfyr 2020, dyddiad cyfarfod cyntaf y Cyfrin Gyngor ar ôl y cyfarfod lle gwaned y prif Orchymyn, a chafodd ei osod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny. Ystyrir bod dyddiad dod i rym hwyrach yn amhosibl am ddau reswm. Yn gyntaf, er mwyn sicrhau na fydd oedi yn y rhwymedigaethau ar weithredwyr safleoedd sy'n ymwneud â monitro data at ddibenion dyrannu am ddim. Mae hyn yn osgoi ansicrwydd i gyfranogwyr ac yn sicrhau proses bontio ddidrafferth o System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd i ETS y DU. Yn ail, mae angen dadwneud dirymiad arfaethedig o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (“y Rheoliad Dyrannu am Ddim”) drwy reoliad 62 o Reoliadau’r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019, sy’n dod i rym ar ddiwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu. Gwnaed yr offeryn fel rhan o baratoadau “ymadael heb gytundeb” blaenorol Llywodraeth y DU yng ngwanwyn 2019.

Gan y bydd y Gorchymyn yn destun craffu gan Senedd y DU, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar nodweddion dylunio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU rhwng 2 Mai 2019 a 12 Gorffennaf 2019. Yn ogystal, cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid yng Nghymru i gasglu barn partïon â diddordeb gan gynnwys darpar gyfranogwyr y cynllun. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraethau ar y cyd i'r ymgynghoriad ar 1 Mehefin 2020.

Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i atodi er gwybodaeth i chi. Mae'n cael ei osod, ynghyd â'r Gorchymyn, yn y Swyddfa Gyflwyno. Gosodwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cwmpasu holl effaith ETS y DU ynghyd â phrif Orchymyn; darperir dolen yn y Memorandwm Esboniadol sydd ynghlwm.

Mae copi o'r llythyr hwn yn mynd at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd